

Sue Walker
Cyfarwyddwr Addysg
Director of Education

Uned 5, Parc Fusnes Triangl, Pentrebach,
Merthyr Tudful, CF48 4TQ
Unit 5, Triangle Business Park, Pentrebach,
Merthyr Tydfil, CF48 4TQ

Ffôn/Tel: **(01685) 725000**
www.merthyr.gov.uk
Croesawn alwadau yn y Gymraeg
We welcome calls in Welsh



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Dyddiad/Date: 19th April 2024

e-bost /e-mail: schoolorganisation@merthyr.gov.uk

YMGYNGHORIAD AR GYNNIG I SEFYDLU CANOLFAN ADNODDAU DYSGU CYFRWNG CYMRAEG (LRB) YN YSGOL GYMRAEG RHYD Y GRUG

Annwyl Riant/Gofalwr,

Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn datblygu cynnig ar gyfer sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu Cyfrwng Cymraeg (CAD) yn Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug.

Mae dosbarth CAD yn darparu lle arbenigol i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) o fewn lleoliad ysgol brif ffrwd. Ar hyn o bryd mae 16 o ddosbarthiadau CAD mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ar draws y fwrdeistref sirol, ac mae disgyblion sy'n mynychu'r dosbarthiadau CAD wedi'u hintegreiddio'n llawn fel disgyblion yr ysgol mae'r dosbarth wedi'i lleoli ynddi.

Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth o'r fath mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mae'r awdurdod lleol yn bwriadu mynd i'r afael â hynny drwy'r cynnig hwn, fel y nodir isod.

Cynnig:

Sefydlu CAD Cyfrwng Cymraeg generig gyda 12 lle ar gyfer disgyblion Derbyn i Flwyddyn 6 ag anghenion dysgu ychwanegol, i'w lleoli yn Ysgol Gymraeg Rhyd Y Grug.

Byddai disgyblion ag ADY sydd angen darpariaeth arbenigol sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Gymraeg Santes Tudful ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn cael y cyfle i gael mynediad i ddarpariaeth ADY yn y dosbarth CAD newydd ei sefydlu.

Y nod yw agor y dosbarth CAD ym mis Medi 2025 ac mae gwaith cyfalaf yn cael ei gynllunio gan ddefnyddio cyllid grant Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gofodau dosbarth CAD yn addas at y diben i ddiwallu anghenion y disgyblion.

Mae ymgynghoriad statudol 6 wythnos yn cael ei gynnal rhwng dydd Llun 22 Ebrill a dydd Sul 2 Mehefin a hoffem gael gwybod eich barn.

Bydd dogfen ymgynghori fanwl a holiadur ymgynghori ar gael ar-lein o ddydd Llun 22 Ebrill ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Ymgynghoriadau.

Mae digwyddiadau ymgynghori hefyd yn cael eu cynnal sy'n rhoi'r cyfle i 'alw heibio' a dysgu mwy am y cynnig ac i roi eich barn i ni.

Os nad ydych yn gallu mynychu unrhyw un o'r dyddiadau isod ac yn methu cael mynediad i'r wybodaeth ymgynghori ar-lein gallwch ofyn am gopiâu caled drwy'r cyfeiriad e-bost uchod neu yn swyddfa'r ysgol.

Mae dyddiadau, amseroedd a lleoliadau'r sesiynau galw heibio fel a ganlyn:

Lleoliad	Dyddiad / Amser
Ysgol Gymraeg Rhyd Y Grug	23^{ain} Ebrill 2024 3:30yh
Ysgol Gymraeg Santes Tudful	25^{ain} Ebrill 3:10yh
Ysgol Gymraeg Rhyd Y Grug	02^{il} Mai 2024 3:30yh

Unwaith daw'r cyfnod ymgynghori i ben bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad a ddylid symud ymlaen i hysbysiad statudol.

Bydd gohebiaeth bellach am y cynnig hwn, gan gynnwys canlyniad yr ymgynghoriad a'r camau nesaf, yn cael ei ddsbarthu cyn diwedd mis Mehefin.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, rhowch wybod i ni gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a roddir uchod.

Yr eiddoch yn gywir,

Sue Walker

Cyfarwyddwr Addysg/Director of Education